



Astudiaeth Achos Cynllunio
Safle Gradd Bwyd: Volac International Ltd

Agriculture



Calf Products



Dairy Products



Sheep Products



Pig Products



Forage Products

Volac Lifestyle Ingredients



Active nutrition



Senior nutrition



Weight management

Dairy ingredients



Food ingredients products



Feed ingredients products

Trosolwg

Busnes maetheg anifeiliaid yw Volac, ac mae'n un o'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop. Cychwynnodd y cwmni yn y 1970au ac mae bellach ganddo drosiant o £200 miliwn. Mae'n cyflogi tua 400 o bobl ac yn cynhyrchu mwy na hanner ei werthiant y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Y mae bellach ganddo safleoedd cynhyrchu yn Llanbedr Pont Steffan a Phort Talbot yng Nghymru, yn Lerpwl a Sleaford yn Lloegr, ac mae ganddo fentrau ar y cyd yn Gudang ym Malaysia ac yn Hoogeveen yn yr Iseldiroedd.



Symudodd Volac i'r safle yn Llanbedr Pont Steffan ym 1989 lle bu gwaith prosesu cynnyrch llaeth yn weithredol ers y 1940au ac felly roedd yr adeilad a'r safle yn barod i'w defnyddio. Nid oedd gwrthwynebiad lleol i'w gynlluniau ar gyfer tir cyflogaeth, gan nad oedd yn adeiladu ar unrhyw safleoedd maes glas ac yn cadw'r defnydd cyflogaeth mwy neu lai'r un peth.

Symud i'r safle fel tenant a wnaeth yn wreiddiol, ond y mae bellach yn berchen ar y seilwaith ac ar gyfanswm o oddeutu dau draean o'r safle.

Mae ar safleoedd gradd bwyd angen mynediad at ynni, dŵr glân, cysylltiadau trafndiaeth cymharol dda a thrwyddedau amgylcheddol.

Clystyru Busnesau Cynhyrchu Bwyd ar y Safle yn Llanbedr Pont Steffan

Cred Volac fod busnesau yn elwa o glystyru gwaith cynhyrchu bwyd gyda'i gilydd ym Mharc Menter Dyffryn Aeron gan rannu rhywfaint o seilwaith arbenigol, megis gwaith trin elifion.

Cymorth Llywodraeth Cymru – oddeutu 10% o gyfanswm y buddsoddiad:

Amcangyfrifa Volac ei fod, yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, wedi buddsoddi tua £30 miliwn yn y safle ac wedi derbyn tua £3 miliwn o gymorth grant. Mae hyn wedi caniatáu i'r cwmni gyflogi 102 o staff amser llawn ar y safle heddiw.

Ehangu a Buddsoddi:

Buddsoddodd Volac mewn cyfleusterau cynhyrchu a chynyddodd hyn yr angen i ymestyn maint y safle er mwyn gwneud lle i waith a pheiriannau newydd. Mae'r prosesau cynhyrchu yn defnyddio llawer o ynni gwres i sychu cynnyrch bwyd anifeiliaid ac felly gosododd Volac ei offer cynhyrchu gwres a phŵer ei hun ar gyfer anweddu a chwistrell-sychu.

Ond bellach mae anhawster wedi codi ar y safle o ran datblygu gan ei fod wrth ymyl gorlifdir ac mae'r mater amgylcheddol hwn yn cyfyngu ar y gwaith ehangu arfaethedig o ran dyluniad a lleoliad.

Yn ychwanegol, mae hyn yn effeithio ar fannau parcio ceir a llwybrau cerddwyr, ac felly mae cynnig yn cael ei ddatblygu i godi maes parcio newydd ar byst i ganiatáu i lifddwr godi a gostwng heb iddo gael ei ddadleoli.

Cynllunio:

Dros y blynyddoedd, teimla Volac ei fod wedi creu partneriaethau effeithiol rhwng eu peiranyddion strwythurol a sifil, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Adran Gynllunio Cyngor Sir Ceredigion. Mae Volac yn gweld manteision ymgynghori cyn cynllunio gan fod hyn yn caniatáu i'r egwyddorion datblygu mawr gael eu trafod cyn i'r broses gynllunio fwy manwl fynd rhagddi.

Gwersi a Ddysgwyd

Cyngor: Ymgynghorwch cyn cynllunio er mwyn trafod y cysyniadau a'r syniadau mawr cyn ymrwymo i'r cynlluniau manwl. Gwnewch yn siŵr bod yr holl randdeiliaid wedi'u cynnwys yn y camau cyn cynllunio a chaniatewch ddigonedd o amser i'r swyddogion cyhoeddus wneud eu gwaith a chynghori.

Mae cymorth Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn bwysig iawn gan ei fod yn rhoi trwydded i weithredu oddi mewn i ofynion amgylcheddol manwl penodol. Ond y mae Volac yn mynegi pryderon ynglŷn â chyflymder a manylder y penderfyniadau hyn, gan deimlo y gallant gymryd gormod o amser i'w cyflawni. A phob tro y mae Volac yn ehangu ei safle mae gofyn iddo ailgyflwyno amrywiad i gadarnhau ei fod yn gweithredu oddi mewn i gyfyngiadau'r drwydded.

Noda Volac y gall oedi wrth arfarnu a chymeradwyo'r drwydded arafu pa mor gyflym y gall ddatblygu ac ehangu ei fusnes sydd, yn ei dro, yn effeithio ar effeithlonrwydd economaidd y safle.

Seilwaith a'r amgylchedd:

Cyngor: Mae seilwaith trafndiaeth a chyfleustodau allweddol yn hanfodol i fusnesau twf mawr ffynnu.

Mae'n rhaid i Volac ystyried defnydd ynni a rhwydweithiau cludiant cymysg, defnydd trydan, defnydd dŵr a gollwng dŵr gwastraff, biomas, nwy hylifedig naturiol (LNG), cysylltedd band-eang a chludiant deunydd crai a chynnyrch gorffenedig yn ei waith cynllunio gweithredol.

Cyflenwad ynni:

Mae Volac yn defnyddio llawer o ynni ar ei safle, yn arbennig yn ei brosesau sychu bwyd-amaeth. Yn draddodiadol, llosgai olew trwm gan ryddhau hyd at 30,000 o dunelli o CO₂ y flwyddyn. Penderfynodd Volac ddefnyddio mathau glanach a mwy carbon-ffeithlon o danwydd, gyda'r uchelgais o fod yn safle di-garbon.

Newidiodd i ddefnyddio LNG sy'n 'wyrddach' ond, er mai yn Aberdaugleddau y mae un o'r prif fannau dadlwytho LNG, ni all seilwaith y pibellau nwy ymdopi a'r galw am nwy sydd gan Volac, ac felly mae'n rhaid iddo gludo ei gyflenwad mewn tanceri ar y ffyrdd o Avonmouth a Chaint. Mae'r cyfleuster bellach yn galw am un tancer y dydd.

Gan fynd i'r afael â'i alw am ynni mewn ffordd greadigol, buddsoddodd Volac £38m mewn gorsaf bŵer thermol a thrydan 20MW, sy'n cynhyrchu 3MW o bŵer trydan a 15MW o wres gan ddefnyddio sglodion coed wedi'u cynhyrchu'n lleol, a gwastraff biomas.

Dŵr:

Yng ngeiriau Volac, *"Mae cyflenwad dŵr yn fater mawr inni ... rydym yn tynnu tua 1 miliwn o litrau o ddŵr bob dydd ... mae eisoes gennym gyfyngiad ar ddŵr yfed i'n safle, am nad oes digon o brif gyflenwad dŵr ar gael"*.

Mae ar Volac angen cyflenwad da o ddŵr glân ar gyfer ei waith prosesu bwyd, fel yn achos y rhan fwyaf o gwmnïau sy'n cynhyrchu cynnyrch llaeth. Gall hyn olygu bod Cymru yn safle deniadol i fusnesau o'r fath, cyhyd ag y gallant gael mynediad at gyflenwadau cyson o ansawdd uchel.

Y Rhyngrwyd:

Mae Volac yn gweithio gyda thua 400 o gyflogeion ar draws chwe safle a phum gwlad, ac felly mae cysylltedd TGCh yn bwysig, er mwyn cyfathrebu oddi mewn i'r busnes, ond hefyd â'i gadwyn gyflenwi a'i gwsmeriaid.

Un enghraifft o sut mae mynediad i'r Rhyngwlad yn cyfyngu ar y busnes yw'r angen i rannu lluniadau a dogfennau technegol ar gyfer tyrbin newydd sy'n cael ei gomisiynu gan beirianwyr yn yr Eidal ac Awstria. Yn Llanbedr Pont Steffan, mae pob amrywiad ar y lluniadau technegol yn cymryd sawl awr i lawrlwytho'r set dechnegol gyfan, ond mewn ardaloedd sydd â gwell cysylltedd ychydig funudau y mae hyn yn cymryd.

Cyngor: Wrth gynllunio seilwaith a pharciau busnes, mae angen i barciau busnes ystyried gosod TGCh o ansawdd uchel.

Trafnidiaeth:

Mae Volac yn fusnes rhyngwladol sydd â phrif swyddfa yng Nghaergrawnt. Anodd yw cyrraedd ei safle cynhyrchu yng Ngheredigion drwy hedfan neu ar y trên, sy'n golygu mai anodd yw i rai ymwelwyr busnes a staff ymweld â'r safle.

Mae Maes Awyr Caerdydd yn parhau i fod yn anodd ei gyrraedd ar y ffyrdd ac ychydig iawn o gysylltedd llwybrau hedfan busnes sydd yno. Y mynediad rhesymol agosaf i'r rhwydwaith trenau yw Port Talbot oherwydd yr amserau teithio aneffeithlon o Gaerfyrddin ac Aberystwyth.

Mae trafndiaeth ar y ffyrdd yn bwysig i Volac gan fod y cwmni'n defnyddio llawer o ddeunydd craidd ac yn dosbarthu llawer o gynnyrch gorffenedig sy'n galw am 50 i 60 o lorïau y dydd i fynd a dod o'r safleoedd yn Llanbedr Pont Steffan a Phort Talbot.

Cyngor: Wrth gynllunio, efallai y bydd angen ystyried twf y busnes yn ogystal â'r cynnig cynllunio presennol er mwyn i gyfleoedd i dyfu ac ehangu'r safle gael eu gwneud yn fwy eglur i arweinwyr busnes i wneud penderfyniadau yn eu cylch.